# Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

## Disgrifiad o'r Swydd

**1 Atebolrwydd**

- I'r Cyngor Llawn

**2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau**

- **Cynnig arweinyddiaeth a chyfeiriad**

  - Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir

  - Sicrhau manylder a gwrthrychedd yn y pwyllgor, gan dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd ac yn ystod y broses archwilio

  - Arddangos annibyniaeth, gonestrwydd a di-dueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

  - Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau eglur

  - Arwain y pwyllgor wrth ei waith yn:

    - hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
    - cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i lynu at God Ymddygiad yr Aelodau;
    - cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu adolygu Cod Ymddygiad Aelodau;
    - monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
    - cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau;
    - rhoi gollyngiadau i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig
    - ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeirir at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
    - arfer y swyddogaethau hynny mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

**3. Gwerthoedd**

Bod wedi ymrwymo a dangos y gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Adeiladu consensws